**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

28 Tachwedd 2018

Annwyl Carwyn

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Gosodwyd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 gerbron Senedd y DU ar 13 Tachwedd 2018. Ar 16 Tachwedd 2018, gosododd Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad ysgrifenedig cysylltiedig yn unol â Rheol Sefydlog 30C.

Bwriedir i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1), a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf).

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2018. Mae paragraff olaf y datganiad yn nodi:

> "Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi".

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, a baratowyd gan Lywodraeth y DU, yn nodi bod y Rheoliadau yn gwneud newid polisi mewn perthynas â chydnabod tystysgrifau cymhwysedd i laddwyr. Mae Paragraffau 10.1 a 2.17 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

> "10.1 … this instrument makes mainly technical amendments…it does not change the substantive policy with the exception of the proposal to no longer recognise EU27 certificates of competence for slaughterers…"
>
> "2.17 … As well as these technical changes to ensure operability of the regulation after exit, the instrument also introduces a policy change. Currently, certificates of competence, issued to slaughterers by other Member States, must be recognised in the UK. Certificates of competence are required by slaughterhouses in the EU to demonstrate that an individual has been trained and successfully assessed as DExEU/EM/7-2018.2 4 reaching a sufficient level of competence to undertake the animal handling, stunning and killing and related operations required of them. The amendments made to Article 21(4) of Council Regulation (EC) 1099/2009 removes this recognition requirement…".

Mae paragraff 2.18 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn nodi y gallai fod problem o ran gorfodaeth pe bai tystysgrifau'n parhau i gael eu cydnabod:

> "2.18 Continued recognition of certificates issued in other Member States would open up potential enforcement issues as we would be unable to suspend or revoke a certificate issued in another Member State in the event a slaughterer breached the requirements of the retained EU legislation or domestic legislation. The European Commission has already confirmed that certificates of competence issued in the UK will not be recognised in other Member States after the UK has left the EU."

Nid yw datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn egluro faint o bobl yng Nghymru y bydd y ddarpariaeth hon yn effeithio arnynt, na'r rhesymeg dros benderfynu ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddarparu ar gyfer y newid polisi hwn mewn offeryn statudol y DU.

Mae paragraff 8 y Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin yn nodi na fydd y pwerau yn adrannau 7, 8 a 9 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn cael eu defnyddio i greu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Am y rheswm hwnnw, tynnaf eich sylw at y Rheoliadau hyn, y Memorandwm Esboniadol a datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru a gofynnaf am eglurhad o pam mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull hwn ac wedi dewis caniatáu i Weinidogion y DU wneud y Rheoliadau ar ei rhan.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, a Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 7 Rhagfyr 2018.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.